LLINELL YN Y TYWOD

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Local Government Boundary Commission for Wales

Cyfrol 1, Rhifyn 1

Chwefror 2009

Hywel Merdydd Davies, Paul Wood (Cadeirydd), a John Bader

Croeso i'r Cylchlythyr cyntaf a gynhyrchwyd gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi cynnal digwyddiadau yn rhannau gwahanol o'r wlad gyda'r nod o ddarganfod pa faterion sy'n achosi pryder i'r bobl hynny y mae'r Comisiwn yn cydweithio â hwy. Un o'r meysydd a nodwyd i'w wella oedd cyfathrebu a gobeithiaf y bydd cyhoeddi Cylchlythyr yn rheolaidd yn mynd rhan o'r ffordd i fynd i'r afael â hyn.

Am y ddwy flynedd nesaf, bydd y Comisiwn yn canolbwyntio'n bennaf ar Arolygon Etholiadol ym mhob un o'r Awdurdodau Unedol yng Nghymru. Ymhlith pethau eraill, byddwn yn cynnig argymhellion ar nifer y cynghorwyr ym mhob Awdurdod, yr adrannau etholiadol y byddant yn eu cynrychioli a sut y bydd yr adrannau hynny yn cael eu cynrychioli, h.y. un cynghorydd neu nifer o gynghorwyr. Agwedd bwysig o'r broses fydd sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod pleidlais dinesydd yr un gwerth lle bynnag y mae ef neu hi yn byw, naill ai mewn Sir neu Fwrdeistref Sirol. Golyga hyn y byddwn yn archwilio'n fanwl unrhyw sefyllfa lle, o fewn unrhyw Awdurdod, y mae amrywiaeth eang yn nifer yr etholwyr a gynrychiolir gan gynghorwyr.

Gobeithiaf y byddwch o'r farn fod y Cylchlythyr hwn yn addysgiadol ac yn ddefnyddiol, rhowch wybod i ni beth yw eich barn. Wedi'r cyfan, proses ddwy ffordd yw cyfathrebu.

Paul Wood QPM, BA, MSc
Cadeirydd
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Agored yn Llandudno

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Agored (CCBA) llwyddiannus dros ben gennym yn Llandudno ar 16 Hydref 2008 gyda chyfanswm o 55 o bobl yn ei fynychu.

Roedd y fformat ychydig yn wahanol i'r blynyddoedd a fu, gyda'r trafod ar bynciau amrywiol gan gynnwys cyfathrebu, cymarebau etholwyr i Gynghorwyr, beth sy'n gwneud ffiniau gwell a'r *"hyn rydym yn ei wneud yn dda..."* neu'r *"hyn y gallwn ei wneud yn well."*

Anfonwyd yr Adroddiad Blynyddol at bawb a oedd yn mynychu a dosbarthwyd copïau ychwanegol i bawb a fynnai un. Yna roedd hwylusydd yn arwain y ffordd drwy'r deunydd trafod gyda phob bwrdd yn trafod dau bwnc o blith y pedwar a gynigiwyd.

Roedd y trafodaethau yma ac acw'n fanwl, rhai'n oleuedig ac roedd y cyfan yn ddiddorol. Ceisiwyd sicrhau bod cynrychiolydd o'r Comisiwn wrth bob bwrdd, bod llais pawb yn cael ei glywed a bod eu cyfraniad yn cael ei gofnodi. Yna daliodd yr hwylusydd ati gyda chrynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd, cyn i bawb gael y cyfle i gylchdroi a gweld safbwyntiau pawb arall.

I ddod â'r broses honno i ben cafodd pawb wedyn y cyfle i bleidleisio dros y tri mater oedd bwysicaf yn eu barn hwy. Aed â'r pwyntiau hyn yn eu blaenau a'u dadansoddi gan staff y Comisiwn i roi syniad am ba bethau'n union y byddai angen inni fynd i'r afael â hwy.

Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

..#Adolygiad Etholiadol i fynd yn ei flaen

..#Cyhoeddi enwau'r Siroedd cyntaf i'w hadolygu

Yn y rhifyn hwn:

Croeso'r Cadeirydd 1
Paul Wood

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Agored 2008 1
Abbie Prescott-Bird

Gweithdai Y Fenni a Chaerfyrddin 2
Abbie Prescott-Bird

Ynghylch y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru 2
Ralph Handscomb

Gwesty St George yn Llandudno oedd lleoliad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Agored y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn 2008 – y cyntaf mewn cyfres o weithdai sydd wedi cael croeso.

Penderfynwyd ar y newid fformat i wneud yr achlysur yn un mwy rhyngweithiol. O'r ymateb a gafwyd, mae'n ymddangos iddo daro deuddeg. Ein nod yw bod yn agored a defnyddiol, ac roedd y fformat newydd yn gychwyn cyfnod newydd.

Mae'r cylchlythyr hwn yn un o ganlyniadau uniongyrchol yr ymateb o'r CCBA, gan inni addo bod yn fwy hygyrch yn ein cyfathrebu. Gwrandawsom ar eich awgrym chi a gwneud y newid. Gobeithiwn mai dyma'r cyntaf mewn cyfres o bethau da sydd i ddod,

Bydd y prif ganlyniadau a'r awgrymiadau yn sgil y cwestiynau a drafodwyd yn y CCBA ar gael yn y cylchlythyr nesaf. Bydd gennym ambell ateb hefyd a gwybodaeth bellach am sut rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'ch awgrymiadau.

Roedd yr ymateb cadarnhaol gan bawb a oedd yn mynychu yn galondid. O'r ymateb cychwynnol hwnnw penderfynwyd bod angen mynd â hyn i weddill y Dywysogaeth. Gyda hynny mewn golwg, trefnwyd dau weithdy pellach yng Ngorllewin a De Ddwyrain Cymru er mwyn dal ati gyda'r gwaith da a gychwynnwyd yn Llandudno.

I'r rhai ohonoch a fynychodd y cyfarfod, diolch ichi am eich cyfraniad. I'r rhai ohonoch na allai fod yno, gobeithiwn eich gweld chi'r tro nesaf.

Abbie Prescott-Bird
Swyddog Adolygu, CFLLLG

"... roeddem wedi ein rhyfeddu gan gefnogaeth ein holl randdeiliaid yn y CCBA..."

Mynd â phethau yn eu blaenau

Roedd Siarad â'r Mur yn boblogaidd yng Ngweithdai 2008...

Gan fod fformat y CCBA yn Llandudno yn gymaint o lwyddiant, penderfynwyd bwrw yn ein blaenau â'r gwaith da a threfnu dau weithdy ychwanegol ar gampws y Bryn yng Ngholeg Gwent yn y Fenni, ac yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.

Roedd y gweithdai yn dilyn mwy neu lai'r un strwythur â'r CCBA gyda'r un pynciau dan drafodaeth. Gan fod gennym ddiddordeb i gael y gynulleidfa ehangaf posibl, roeddem wrth ein boddau fod y ddau weithdy ychwanegol wedi denu 91 arall i gymryd rhan.

Yn ychwanegol at y pynciau trafod, roedd yr hwylusydd hefyd yn annog y rhai a gymerai ran i afael mewn unrhyw faterion ychwanegol a oedd y tu allan i'r drafodaeth dan sylw. Gosodwyd y pwyntiau hyn wedyn ar 'Y Mur' fel y gallai pawb eu gweld ac ychwanegu atynt (*gweler ffotograff*). Rydym wrthi'n archwilio'r materion hynny a godwyd yn y ddau ddigwyddiad a byddwn yn adrodd yn ôl ar unrhyw wybodaeth neu ddatblygiadau yn y cylchlythyr nesaf.

Ar ôl mynd i'r afael â'r materion a godwyd gennych chi yn y digwyddiadau, y cam nesaf fydd cynllunio'r gyfres nesaf o weithdai. Hoffem gael eich cymorth chi ar gyfer hyn – beth hoffech ei drafod yng ngweithdai 2009? Pa faterion llosg sydd angen eu trafod yn eich barn chi? Gadewch inni wybod. Byddwn yn cymryd pob awgrym o ddifrif.

Abbie Prescott-Bird
Swyddog Adolygu, CFLLLG

Ynghylch y Comisiwn...

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Local Government Boundary Commission for Wales

Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn gorff hynod fychan a chryno.

Mae'r Comisiwn ei hun yn cynnwys tri aelod apwyntiedig a gefnogir gan ddim ond tri aelod parhaol o staff - mae gweddill y pump ar y Timoedd Adolygu a'r tri aelod o staff gweinyddol sydd ganddynt ar secondiad o Adrannau eraill y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth ar amrywiaeth o gyfnodau sefydlog fel bo'r gofyn i wneud yr Arolygon Etholiadol yn ogystal ag unrhyw Arolygon Cymunedol sydd ar droed.

Mae'r Comisiwn wrth ei fodd ei fod yn gallu cysylltu â rhanddeiliaid drwy'r cylchlythyr hwn a'r bwriad yn sicr oedd iddi fod yn broses ryngweithiol. Yn wir, gan fod y Gweinidog bellach wedi cychwyn yr Adolygiadau etholiadol mae hynny'n bwysicach nag erioed boed hynny yn awr neu yn ein cyfarfodydd ar draws Cymru yr Hydref nesaf. Dangosir ein holl fanylion cysylltu yn y panel ochr a hoffwn achub ar y cyfle hwn i atgoffa darllenwyr ein bod am fod yn sicr fod eich manylion cysylltu cywir chi gennym. Cymerwch ychydig o funudau os gwelwch yn dda i sicrhau bod gwefan eich sir yn cynnwys y cyfeiriadau a'r rhifau cysylltu cywir ar eich cyfer chi a'ch sefydliad ac yna cofiwch drosglwyddo unrhyw newidiadau yn y manylion hynny mor fuan â phosibl. Bydd hyn yn ein helpu ni i'ch helpu chi.

Ralph Handscomb
Swyddog Gwybodaeth a Chyhoeddiadau, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

CONTACT US!

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Local Government Boundary Commission for Wales

Tŷ Caradog
1 - 6 Plâs Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

Caradog House
1 - 6 St Andrews Place
Cardiff Cf10 3BE

tel-*ffôn*: 029 2039 5031
fax-*ffacs*: 029 2039 5250

e mail - *e bost*:
lgbc.wales@wales.gsi.gov.uk